# Cynghorydd Cydymffurfiaeth a Sicrhau Ansawdd

**Rhif y Swydd: 505428**
**CYFLOG: £41,511 – £42,708**
**GRADD: 13**
**37 awr yr wythnos**
**12 Mis Cyfnod Penodol**

Rydym yn chwilio am Gynghorydd Cydymffurfiaeth a Sicrwydd Ansawdd Gwasanaethau Pobl medrus sy'n canolbwyntio ar fanylion i gefnogi ein cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Pobl. Yn y rôl allweddol hon, byddwch yn sicrhau cydymffurfiaeth â safonau mewnol ac allanol, yn monitro perfformiad gweithredol, ac yn ysgogi gwelliannau parhaus. Byddwch yn gyfrifol am adolygu systemau a phrosesau, cynnal archwiliadau, a darparu arweiniad arbenigol ar newidiadau deddfwriaethol a rheoliadol. Byddwch hefyd yn cefnogi'r tîm rheoli i ddarparu gwasanaeth rhagorol a chynnal cywirdeb data.

Mae medrau allweddol yn cynnwys dealltwriaeth gref o gydymffurfio, profiad o reoli ansawdd, a'r gallu i gydweithio'n effeithiol â chydweithwyr ar bob lefel. Mae profiad mewn rôl debyg yn hanfodol, ac mae gwybodaeth am gydraddoldeb ac amrywiaeth yn ddymunol iawn.

Ymunwch â ni i chwarae rhan hanfodol wrth wella darpariaeth gwasanaeth a chefnogi llwyddiant sefydliadol.

Ceir rhagor o fanylion am y swydd hon yn y Swydd Ddisgrifiad a'r Manyleb Person, y gellir eu llwytho i lawr ynghyd â ffurflen gais o dudalennau Gweithio i Ni/Swyddi Gwag Diweddaraf ein gwefan www.decymru-tan.gov.uk.

Dylid llenwi Ffurflenni Cais ar-lein drwy law ein system e-recriwtio, y gellir ei chyrchu drwy ein gwefan: https://www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-gydani/swyddi-diweddaraf/ Os oes angen fersiwn papur, cysylltwch drwy law e-bost: personel@decymru-tan.gov.uk.

Dylai pob ymgeisydd mewnol ymgeisio drwy law eu porthol CORE, wrth ddewis "Swyddi Gwag Cyfredol" o'r tab ar y chwith.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw **Dydd Mawrth y 10fed o Ragfyr 2024 am 12:00.**
Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn amodol ar wiriad cofnod troseddol sylfaenol boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a bydd gofyn iddo/iddi ymgymryd â Phrawf Cyffuriau ac Alcohol cyn gwneir penodiad.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau a chroesawn gyfathrebiadau yn y naill iaith â'r llall. Ni chaiff ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol. Rhoddir cyfle i ymgeiswyr sy'n llwyddiannus yn y cam Rhestr Fer i gadarnhau eu dewis iaith ar gyfer cyfweliadau ac asesiadau (gan gynnwys gwaith papur, cyflwyniadau ar lafar a chwestiynau cyfweld). Bydd trefniadau yn cael eu cadarnhau yn dilyn y gwahoddiad i gyfweliad ac fe all gynnwys Cyfieithydd a Chyfieithu/neu Gyfieithu ar y Pryd.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol ymgeiswyr o bob sector cymdeithas i ymgeisio.

**Manteision gweithio yng Ngwasanaeth Tân ac Achub De Cymru**

**Gwyliau Blynyddol** – Y lwfans ar gyfer y rôl hon yw 30 diwrnod ynghyd â gwyliau banc.

**Rhaglen Cymorth i Weithwyr** - Mae'r RhCG yn darparu cyngor a chymorth cyfrinachol, diduedd 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn. Mae'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim i weithwyr gael mynediad iddo pryd bynnag y bo angen.

**Vivup** - darparwr buddion i weithwyr arobryn sy'n cynnig pentwr o fanteision ac arbedion iechyd a lles i'r holl staff ar draws nifer o frandiau mawr.
Mae rhai o fanteision y platfform hwn yn cynnwys:

- Cynllun Seiclo i'r Gwaith
- Cynllun ceir Tusker
- Gostyngiadau ar offer i'r cartref ac offer electroneg
- Arbedion Dull o Fyw

**Amser Hyblyg** - Mae staff corfforaethol yn gallu gweithio oriau hyblyg. Gydag oriau craidd o 10yb-12yp a 2-3yp; gallwch gwblhau balans eich oriau unrhyw bryd rhwng 7am a 7pm.

**Dysgu a Datblygu** - Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn cydnabod bod gweithwyr sydd wedi'u hyfforddi'n dda yn allweddol i lwyddiant. Gyda'n Canolfan Hyfforddi bwrpasol ym Mhorth Caerdydd a thimau hyfforddi arbenigol, mae digon o gyfleoedd i dyfu a datblygu eich sgiliau.

**Campfa** - Ble bynnag rydych wedi cael eich lleoli fel gweithiwr i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru, mae mynediad i'n cyfleusterau campfa ar gael i bawb, yn rhad ac am ddim.

**Cynghorwyr Iechyd a Ffitrwydd** - Mae ein Cynghorwyr Iechyd a Ffitrwydd yn monitro lefelau ffitrwydd staff gweithredol. Gallant hefyd gynnig cyngor iechyd a ffitrwydd i bob gweithiwr ar gais.

**Elusen Diffoddwyr Tân** - Gall pob gweithiwr, a'u dibynyddion, fod yn fuddiolwyr yr elusen. Mae'r elusen yn darparu cymorth iechyd a lles i holl gymuned y Gwasanaeth Tân.

**Parcio Ceir** - Nid yw Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn codi tâl am barcio ceir yn unrhyw un o'i safleoedd.

**Hyrwyddwyr Golau Glas Mind** - Fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i iechyd a lles, rydym yn cefnogi Rhaglen Golau Glas MIND. Mae'r Rhaglen yn cynnig cymorth iechyd meddwl i weithwyr y gwasanaethau brys.

**Iechyd Galwedigaethol** - Nod yr Uned Iechyd Galwedigaethol yw cynyddu iechyd, lles ac effeithlonrwydd staff i'r eithaf a lleihau'r risgiau y mae staff yn agored iddynt o ganlyniad i arferion gwaith a'r amgylchedd gwaith.

**Pensiwn -** Mae staff cymorth yn gymwys i ymuno â Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, sy'n gynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio. Mae cyfraniadau gweithwyr yn seiliedig ar eich cyflog.

**Chwaraeon a chymdeithasol -** Mae ein hadran chwaraeon a chymdeithasol yn dod â gweithwyr ynghyd o bob adran. Mae Ffotograffiaeth, Sgïo, Crwydro, Beicio, Pêl-droed, Rygbi, Syrffio a Golff ymhlith y diddordebau a rennir**.**

**Cyrsiau Cymraeg** - Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg yn y gweithle ac yn cynnig mynediad i bob gweithiwr i gyrsiau Cymraeg ar ystod o lefelau i weddu i bob angen.